

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Ionawr 2011

Cafodd *Y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010. Mae prif ddarpariaethau'r Mesur Seneddol yn cynnwys disodli awdurdodau'r heddlu gan gomisiynwyr heddlu a throseddau a etholir yn uniongyrchol a gwneud newidiadau i *Ddeddf Trwyddedu 1993* i roi mwy o bwerau i awdurodau lleol a'r heddlu ymdrin ag unrhyw fannau sy'n creu problemau.

Nid yw plismona na thrwyddedu, sef prif feysydd polisi'r Mesur Seneddol, wedi'u datganoli i Gymru, ond mae rhai cymalau yn darparu ar gyfer trefniadau penodol i Gymru. Yn nodedig, mae darpariaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru i bob Panel Heddlu a Throseddau. Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cynhyrchu Papur Ymchwil cynhwysfawr ar bob agwedd ar y Mesur Seneddol.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r
Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol
Ionawr 2011**

Alys Thomas

Rhif dogfen: 10/072



Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Y Papur Ymgynghori	2
3.	Y Mesur Seneddol.....	3
4.	Ymateb.....	7
4.1.	Y Cyd-destun Cymreig	7
4.2.	Comisiynwyr a Phanelau Heddlu a Throseddau.....	8
4.3.	Trwyddedu.....	10
5.	Darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru	12
	Atodiad 1	14
	Aelodaeth : Cymru	14

Y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

Cafodd y *Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010.

Mae prif ddarpariaethau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- disodli awdurdodau'r heddlu gan gomisiynwyr heddlu a throseddau a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Y bwriad yw cyflwyno hyn o fis Mai 2012;
- gwneud newidiadau i *Ddeddf Trwyddedu 1993* er mwyn rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu ymdrin â manau sy'n achosi problemau;
- cyflwyno system o waharddiadau dros dro ar gyfer sylweddau seicoweithredol newydd – y rhai 'anterth cyfreithlon' fel y'u gelwir, fel GBL a BZP – tra mae arbenigwyr annibynnol yn ystyried y materion iechyd;
- adfer yr hawl i gynnal protestiadau di-drais o amgylch y Senedd, gan sicrhau, hefyd, bod pawb yn gallu cael mynediad at Parliament Square drwy ddiddymu adrannau 132-138 o *Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) 2005* a gwahardd gweryslyoedd a gweithgareddau aflonyddol eraill ar Parliament Square;
- newid y broses o gyhoeddi warant arestio preifat ar gyfer troseddau awdurdodaeth cyffredinol.¹

Mae'r Mesur Seneddol yn ymestyn yn bennaf i Gymru a Lloegr er bod rhai darpariaethau yn ymestyn i'r Alban a Gogledd Iwerddon (o ran camddefnyddio cyffuriau). Nid yw plismona na thrwyddedu, sef y prif feysydd polisi a gaiff eu cwmpasu gan y Mesur, wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae rhai cymalau yn darparu ar gyfer trefniadau penodol i Gymru, yn nodedig i **Aelodau'r Cynulliad gael eu penodi gan Weinidogion Cymru i bob Panel Heddlu a Throseddau**. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn awgrymu y byddai'r penodiadau hyn yn **amodol ar eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond ymddengys nad oes darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Mesur Seneddol**.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar gymalau yn y Mesur Seneddol sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ac ymatebion gan randdeiliaid o Gymru'n benodol. Mae

¹ [Y Swyddfa Gartref, Gwefan Police Reform and Social Responsibility Bill](#) [ar 6 Rhagfyr 2010]

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cynhyrchu [Papur Ymchwil](#) cynhwysfawr ar y Mesur Seneddol.²

2. Y Papur Ymgynghori

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2010, gwnaeth Llywodraeth y DU yr ymrwymiad a ganlyn fel rhan o'i Chytundeb Clymbleidiol:

We will introduce measures to make the police more accountable through oversight by a directly elected individual, who will be subject to strict checks and balances by locally elected representatives.³

Ar 26 Gorffennaf 2010, cyflwynwyd papur ymgynghori gan y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, yr Ysgrifennydd Cartref, [Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people](#)⁴. Dywedodd fod diwygio'r heddlu'n flaenoriaeth, am fod pobl, ers gormod o amser, wedi wynebu lefelau llawer rhy uchel o droseddau, a gwasanaeth heddlu sydd wedi canolbwyntio gormod ar dargedau Whitehall i fynd i'r afael o ddifrif â'r hyn sy'n bwysig yn lleol.⁵

Ar hyn o bryd, caiff y cyfrifoldeb dros blismona ei rannu rhwng yr Ysgrifennydd Cartref, y Prif Gwnstabiliaid ac Awdurdodau'r Heddlu, o dan y strwythur tairochrog a sefydlwyd gan *Ddeddf yr Heddlu 1964*. Y syniad y tu ôl i'r strwythur hwn yw mai'r Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol i'r Senedd am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a chynnal y safonau gwasanaeth sylfaenol; Prif Gwnstabiliaid sy'n gyfrifol am effeithiolrwydd gweithredol eu lluoedd eu hunain; ac Awdurdodau'r Heddlu sy'n pennu cyfeiriad strategol y lluoedd unigol, gyda'r Prif Gwnstabiliaid yn gyfrifol amdanynt. O dan gynigion y Llywodraeth, byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a etholir yn uniongyrchol yn disodli Awdurdodau'r Heddlu, gan eu diddymu. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig cyflwyno cyrff newydd – a elwir yn Banelau Heddlu a Throseddau – yn ardal pob un o luoedd yr heddlu i graffu ar waith Comisiynwyr Heddlu a Throseddau.

O ran Cymru, roedd y Papur Ymgynghori yn datgan:

The Government will work closely with the Welsh Assembly Government to ensure that the framework within which the directly elected Commissioners for the four forces in Wales operate reflects and respects devolved responsibilities.⁶

² [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Police Reform and Responsibility Bill, Mesur Seneddol 116 o 2010-2011, Papur Ymchwil 10/81, 9 Rhagfyr 2010.](#)

³ Llywodraeth Ei Mawrhydi, *The Coalition: our programme for Government*, 2010.

⁴ [Y Swyddfa Gartref, Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people, Cm 7925, Gorffennaf 2010.](#)

⁵ [Y Swyddfa Gartref, Radical Reforms for Police Announced, Datganiad i'r Wasg, 26 Gorffennaf 2010](#)

⁶ Op.cit., *Policing in the 21st Century*, para. 2.11

3. Y Mesur Seneddol

Mae'r *Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* yn cynnwys pump Rhan ac un ar bymtheg o Atodlenni.⁷

Rhan 1: Diwygio'r Heddlu Mae hyn yn cynnwys darpariaethau i **ddiddymu awdurdodau'r heddlu** (ac eithrio Dinas Llundain) a'u **disodli gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau a gaiff eu hethol yn uniongyrchol** ar gyfer pob un o'r lluoedd y tu allan i Lundain, a Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau ar gyfer yr Heddlu Metropolitan.⁸

Bydd Rhan 1 o'r Mesur Seneddol yn creu **Comisiynwyr Heddlu a Throseddau etholedig** a fydd yn **gyfrifol am ddal prif gwnstabl eu lluoedd unigol i gyfrif** am y cyfrifoldebau llawn sydd ganddynt. Bydd y prif gwnstabl yn cadw cyfrifoldeb dros gyfeirio a rheoli'r lluoedd unigol. Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu Panelau Heddlu a Throseddau ar gyfer holl ardaloedd lluoedd yr heddlu. Swyddogaeth y Panel Heddlu a Throseddau fydd cynghori a chraffu ar waith y Comisiynydd Heddlu a Throseddau.

Mae Rhan 1 yn nodi **dyletswyddau** sylfaenol **Comisiynydd Heddlu a Throseddau**. Mae'r rhain yn cynnwys cyheoddi **cynllun heddlu a throseddau**, pennu'r **amcanion** heddlu a throseddau lleol, a **phennu'r praesept lleol a'r gyllideb flynyddol** (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn) mewn trafodaeth â'r prif gwnstabl. Mae darpariaethau wedi'u cynnwys yn Rhan 1 hefyd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau benodi, gwahardd a diswyddo prif gwnstabl eu lluoedd unigol. Y prif gwnstabl fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am benodi pob swyddog arall.

Bydd y Panelau Heddlu a Throseddau hefyd yn gallu **rhoi feto ar gyllideb arfaethedig y Comisiynydd gan uchafswm pleidlais o ddwy ran i dair**. Byddant hefyd yn gallu **rhoi feto ar unrhyw ymgeisydd y bydd y Comisiynydd yn ei argymhell i fod yn Prif Gwnstabl**.

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer disodli Awdurdod yr Heddlu Metropolitan gan Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau, gan drosgwyddo'r cyfrifoldeb i Faer Llundain.

Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys **darpariaethau ar gyfer etholiadau cyntaf ac etholiadau dilynol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau**. Bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn cadw'r swydd am bedair blynedd a dim ond am

⁷ [Police Reform and Social Responsibility Bill 2010-2011](#)

⁸ [Police Reform and Social Responsibility Bill 2010-2011, Nodiadau Esboniadol](#)

uchafswm o ddau dymor y gallant fod yn y swydd. Nid oes angen i'r ddau dymor ddilyn ei gilydd.

Rhan 2 : Trwyddedu Mae hyn yn cynnwys darpariaethau i newid *Deddf Trwyddedu 2003* i roi **mwy o lais mewn penderfyniadau trwyddedu** i awdurdodau trwyddedu, yr heddlu, awdurdodau sydd â chyfrifoldeb dros reoli niwsans sŵn, a chymunedau. Mae darpariaethau hefyd yn galluogi Ymddiredolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr a **Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru**, i fynegi barn, am y tro cyntaf, mewn prosesau trwyddedu.

Mae Rhan 2 yn rhoi mwy o rym i awdurdodau trwyddedu dynnu trwyddedau yn ôl neu eu gwrthod drwy eu galluogi i gyflawni yr un swyddogaethau ag awdurdodau cyfrifoldebau presennol, a chymunedau i wneud sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau trwyddedu neu alw am adolygiad o fannau sydd wedi'u trwyddedu. **Mae darpariaeth ar gyfer dyblu'r ddirwy uchaf ar gyfer manau sy'n parhau i werthu alcohol i bobl ifanc o dan 18 yn gyson**, a chynyddu cyfnod y gwaharddiadau a osodir ar y manau hynny. Mae'r darpariaethau yn lleihau'r baich tystiolaethol ar awdurdodau trwyddedu a'r heddlu wrth wneud penderfyniadau o dan *Ddeddf Trwyddedu 2003*. **Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu wrth wneud gorchmynion cyfyngiadau bore cynnar**; byddant yn gallu gwneud gorchmynion felly ar gyfer eu holl ardal neu ran o'r ardal, am unrhyw gyfnod rhwng canol nos a 06.00, a byddant yn gallu pennu cyfyngiadau gwahanol ar ddyddiau gwahanol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno **mwy o hyblygrwydd o ran craffu ar hysbysiadau digwyddiadau dros dro a'u defnyddio**. Bydd yr heddlu ac awdurdodau lleol sy'n gweithredu swyddogaethau iechyd yr amgylchedd yn gallu gwrthwynebu yn erbyn hysbysiad digwyddiad dros dro ar sail yr holl amcanion trwyddedu yn *Neddf Trwyddedu 2003*, a bydd awdurdodau trwyddedu yn gallu gosod amodau ar hysbydiad digwyddiad dros dro o dan amgylchiadau cyfyngedig. Bydd y darpariaethau hefyd yn galluogi defnyddwyr llefydd i gynnal un digwyddiad, mewn unrhyw flywddyn galendr, o dan hysbysiad digwyddiad dros dro am hyd at saith niwrnod, defnyddio un lleoliad am hyd at 21 diwrnod a rhoi nifer cyfyngedig o hysbysiadau digwyddiad dros dro yn hwyrach na'r hyn a ganiateir gan y broses bresennol.

Bydd Rhan 2 yn **atgyfnerthu gallu awdurdodau trwyddedu i orfodi ffioedd nas talwyd i gael eu talu** drwy eu galluogi i atal trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb am beidio talu ffi blynyddol. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu effaill yr holl welliannau a gyflwynir gan Ran 2 i'r gyfundrefn reoleiddio o dan *Ddeddf Trwyddedu 2003* ar ôl cyfnod o bum mlynedd ar ôl iddynt ddod i rym.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaethau i alluogi awdurdodau trwyddedu **gyflwyno ardoll** yn eu hardaloedd a fydd yn **daldwy gan fannau sy'n cyflenwi alcohol fel rhan o economi'r hwyrnos**. Bydd awdurdodau trwyddedu yn gallu rhoi'r ardoll ar eiddo felly am unrhyw gyfnod rhwng canol nos a 06.00, er y byddai rhai mannau yn elwa o gael eu heithrio neu gael gostyngiad. Bydd o leiaf 70 y cant o'r arian a gaiff ei gynhyrchu gan yr ardoll yn cael ei dalu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r bwriad yw talu'r arian hwn hefyd i gyrff a fydd yn gweithredu ffyrdd o fynd i'r afael ag effaith troseddau ac anrhefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Rhan 3: Parliament Square Garden a'r ardal gyfagos Mae hyn yn cynnwys fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer **Parliament Square gyda'r nod o wahardd gwersylloedd a gweithgareddau aflonyddol eraill**. Mae'r darpariaethau yn rhoi pwerau ar gwnstabiliaid a swyddogion awdurdodedig i wahardd personau rhag cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau arbennig mewn rhan benodol o Parliament Square (sef ardal yr ardd ganolog a'r palmentydd cyfagos), gan gynnwys gweithredu unrhyw offer chwyddo sain heb awdurdod, codi a chadw pebyll neu strwythurau eraill a gynlluniwyd i gysgu neu aros yr yr ardal, a gosod neu ddefnyddio unrhyw offer cysgu at ddibenion cysgu dros nos yn yr ardal.

Mae Rhan 3 hefyd yn **diddymu darpariaethau presennol sy'n ymwneud â phrotestiadau yng nghyffiniau'r Senedd fel y nodir yn adrannau 132-138 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005**. Roedd Deddf 2005 yn ei gwneud yn drosedd i drefnu gwrthdystiad neu gymryd rhan mewn gwrthdystiad yn yr ardal ddynodedig o amgylch y Senedd heb awdurdod yr Heddlu Metropolitan neu ddefnyddio uchelseinydd yn yr ardal ddynodedig. Cafodd y rhain eu cyflwyno mewn ymateb i wersyll heddwch parhaol Brian Haw a gorymdaith y Gynghrair Cefn Gwlad i'r Senedd yn 2002. Mae'r darpariaethau hyn wedi bod yn rhai dadleuol. Cafodd ymgyrchwyr rhyddid i lefaru eu herlyn am drefnu picnics yn Parliament Square mewn ymgais i ddangos yr amwysedd ynghylch yr hyn y gallai'r heddlu ei ystyried yn "wrthdystiad" o dan y Ddeddf. Aeth gwrthdystiad Brian Haw ymlaen er gwaethaf y ddeddfwriaeth ac aeth protestwyr eraill i Parliament Square, yn fwyaf diweddar fel rhan o 'Bentref Democratiaeth' a ymddangosodd ym mis Mai 2010. Yn ystod cyrch gan yr heddlu ar ddiwrnod Araith y Frenhines ar 26 Mai 2010, cafodd Mr Haw ei arestio, ar gyhuddiad o rwystro'r heddlu yn ôl y sôn.

Mae effaith y Mesur Seneddol yn golygu na fydd angen i bobl sydd am drefnu gwrthdystiad y bwriedir ei gynnal mewn un lle yn Parliament Square yn gorfod cael awdurdod ymlaen llaw gan yr heddlu o hyn ymlaen, ond bydd swyddogion yn parhau i allu rhoi amodau ar y protestiadau hyn pan fydd angen. Fodd bynnag, ni fyddai "gwersylloedd heddwch" yn cael eu caniatáu.

Rhan 4: Amrywiol Mae gwelliannau amrywiol i'r *Greater London Authority Act 1999* a *Deddf Llywodraeth Leol 1972* yn galluogi awdurdodau lleol i roi pwerau atafaelu a chadw o ran unrhyw eiddo mewn cysylltiad ag is-ddeddfau a gaiff eu torri a wneir o dan adran 385 o'r *Greater London Authority Act* ac adran 235 o'r *Ddeddf Llywodraeth Leol*.

Rhan 4: Mae camddefnyddio sylweddau yn newid *Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971* drwy gyflwyno **pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol reoli sylwedd dros dro am hyd at un flwyddyn drwy offeryn statudol**. Gelwir y rhain yn "anterth cyfreithlon", fel BZP a GBL. Cafodd y broblem y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â hi ei chrynhoi gan wenwynegydd:

as toxicologist Dr John Ramsey explains, the authorities are locked in a cat-and-mouse game with dealers of these substances. The problem, says Dr Ramsey, who analyses drug "amnesty bins", "is it takes a long while to control each of these compounds and as soon as you control one, another set appears".

"The government is always playing catch-up, there's a lot of money to be made."⁹

Mae darpariaethau yn Rhan 4 hefyd i **newid cyfansoddiad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD)** drwy gael gwared ar y gofyniad statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i benodi aelodau sydd â phrofiad mewn gweithgareddau penodedig. Bydd hyn yn caniatáu rhagor o hyblygrwydd o ran aelodaeth y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau. Cefndir y ddarpariaeth hon yw diswyddiad yr Athro David Nutt o dan Lywodraeth flaenorol y DU am fynegi barn a oedd yn groes i bolisi'r llywodraeth ac a arweiniodd at ymddiswyddiad aelodau eraill o'r Cyngor. Mae Paul Flynn AS wedi bod yn cefnogi ystywytho'r rheolau sy'n ymwneud â chyffuriau ers peth amser, a chyflwynodd gwestiwn amserol ar 6 Rhagfyr 2010:

Paul Flynn (Newport West) (Lab): Do the Government really intend to end the obligation for scientists to be members of the Advisory Council on the Misuse of Drugs? Will this not result in the failing Government drugs policy ending up being evidence-free and prejudice-rich?

James Brokenshire: I am grateful to the hon. Gentleman for his question, because it allows me to underline the importance that the Government place on scientific advice and the important role that the Advisory Council on the Misuse of Drugs plays in the formulation of our drugs policies. I can make it absolutely clear that our proposals are intended to add greater flexibility to the provision of advice given to government, in order to ensure that we are able to get more effective policies, given the changing nature of the drugs threat. The proposals were drawn up in conjunction with the Advisory Council on the Misuse of Drugs, and I should add that they have the support of the Government's chief scientific officer, Professor John Beddington.¹⁰

⁹ [Cylchgrawn y BBC ar-lein, High, Above the Law, 24 Mehefin 2008](#)

¹⁰ Trafodaethau Tŷ'r Cyffredin, 6 Rhagfyr 2010, colofnau 19-20

Rhan 4: Mae warant arestio yn rhoi effaith i'r ymrwymiad a gyhoeddod yr Ysgrifennydd Cyfiawnder mewn [Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 22 Gorffennaf 2010](#) bod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno gwelliant deddfwriaethol i'w gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn y gellir cyhoeddi warant arestio ar gais erlynydd preifat mewn cysylltiad â throseddau y mae'r Deyrnas Unedig wedi mynegi awdurdod cyffredinol drostynt. Byddai'r troseddau hyn yn cynnwys troseddau rhyfel a throseddau eraill o ddifrifoldeb eithriadol.¹¹

Rhan 5: Darpariaethau Terfynol Mae'r rhain yn cynnwys cymalau technegol sy'n ymwneud â gorchmynion a rheoliadau, arian, cyrhaeddiad tiriogaethol y Mesur Seneddol, sut y caiff cymalau eu dechrau ac enw cryno'r Mesur Seneddol.

4. Ymateb

4.1. *Y Cyd-destun Cymreig*

Wrth gyfeirio at gynnig Llywodraeth y DU yn y Papur Ymgynghori, mae llawer o randdeiliaid allweddol wedi sôn am gyd-destun arbennig plismona yng Nghymru fel swyddogaeth nad yw wedi'i datganoli ond sy'n golygu cydweithio'n agos â phartneriaid datganoledig fel awdurdodau lleol mewn amrywiol ffyrdd fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaeth Lleol.

Yn San Steffan, cynhaliodd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref ymchwiliad i'r cynigion yn y Mesur Seneddol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ei femorandwm o dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

While the Home Office in its' consultation paper makes reference to the Welsh Assembly Government and its areas of responsibility as they relate to this agenda, we do not believe that the paper adequately reflects the current context of how Police Authorities operate in Wales. The consultation paper is predicated on the assumption that Police Authorities are not effective in relation to their accountability role in that they are "invisible to the public" and that the public are often "unaware of police authorities themselves". These statements do not reflect the situation in Wales. A recent survey undertaken by the Police Authorities of Wales (PAW) identified that 97% of those surveyed either agreed or strongly agreed that they had heard of Police Authorities and 82% agreed that they knew what a Police Authority does. Such evidence therefore reflects awareness of Police Authorities and their role in Wales.¹²

Soniodd CLILC hefyd am y swyddogaethau datganoledig sy'n gorgyffwrdd â'r swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli sydd hefyd yn gorgyffwrdd o ran troseddau a diogelwch cymunedol:

¹¹ Trafodaethau Tŷ'r Cyffredin, 22 Gorffennaf 2010, col 47ws

¹² [Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Gomisïynwyr Heddlu a Throseddau, Memorandwm o Dystiolaeth gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Hydref 2010.](#)

The relationships and partnerships that have developed locally, regionally and nationally in tackling crime and community safety is one of the particular strengths of the current arrangements in Wales. Local authorities have taken their responsibilities under the Crime and Disorder Act 1998 seriously and have developed extremely effective relationships with the police and other partners in establishing and operating Community Safety Partnerships (CSPs). Police Authorities are represented on CSPs which shows how shared priorities can be addressed through individual agencies' business plans. There are also statutory mechanisms through which Police Authorities engage collectively with local government and the Assembly Government such as the Partnership Council (which has been established by the National Assembly for Wales) and the Consultative Forum on Finance—these structures provide Police Authorities with an opportunity to voice issues of concern to Assembly Government Ministers and feed into broader on-going discussions affecting local government policy in Wales.

Mynegodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) Cymru bryder: “existing relationships with partners and the benefits that those partnerships bring to our communities could be damaged through an approach that is focused on achieving consistency across England and Wales rather than facilitating the needs of communities in Wales.”¹³

4.2. *Comisiynwyr a Phanelau Heddlu a Throseddau*

Roedd David Jones AS, Gweinidog Swyddfa Cymru, yn croesawu'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Mesur Seneddol:

The reforms published today will put the public at the heart of our drive to cut crime and give people a greater say and influence over their local communities. Directly elected Police and Crime Commissioners will give people a say in how their local area is policed, reconnecting the police with the communities they serve.

For far too long, the fight against crime has been tangled up in a web of centrally imposed red tape – today's reforms will put the public back at the heart of policing. The Commissioners will replace faceless authorities and make forces truly accountable to the local community.¹⁴

Roedd Prif Weithredwr Cymorth i Ddiodefwyr, yr elusen genedlaethol, yn gefnogol:

There is so much talk of putting victims and witnesses at the heart of the justice system - but their treatment by the police varies hugely. These plans could be an opportunity to design the role of locally elected police commissioners in a way that strengthens the voice of victims and witnesses¹⁵.

¹³ [Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau, Memorandwm o Dystiolaeth gan ACPO Cymru, Hydref 2010.](#)

¹⁴ [Swyddfa Cymru, Gweinidog Swyddfa Cymru yn croesawu'r diwygiadau plismona newydd, Datganiad i'r Wasg, 1 Rhagfyr 2010](#)

¹⁵ [Cymorth i Ddiodefwyr, Javed Khan yn ymateb i gynlluniau ar gyfer comisiynwyr heddlu etholedig, Datganiad i'r Wasg, 1 Rhagfyr 2010](#)

Mewn datganiad llafar I'r Cyfarfod Llawn ar 12 Hydref, dywedodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wrth yr Aeoldau ei fod wedi egluro i'r Ysgrifennydd Cartref bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau'n gadarn yn erbyn y cynigion hyn. Aeth ymlaen i ddweud:

...we do not think that the Home Office has made a case for changing the current system. It suggests that it will replace bureaucratic accountability with democratic accountability, but forces are already accountable to their local communities through their police authorities. Police authorities already have either 17 or 19 members, the majority of whom are democratically elected councillors, and the remainder independent representatives from the communities served by the forces. It is hard to see how replacing 17 or 19 members with one commissioner will increase democratic accountability.¹⁶

Dyweddodd Mr Sargeant ei fod wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Cartref y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ddod i gyfaddawd lle y byddai awdurdodau'r heddlu, yng Nghymru, yn aros, ond gyda'r comisiynydd etholedig yn gadeirydd, ac y byddai hynny'n cynnig yr atebolrwydd democrataidd y mae'r Swyddfa Gartref yn ceisio'i sicrhau, ond gan gynnal cryfderau pwysig y system bresennol.¹⁷

Yn ei femorandwm i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref, soniodd CLILC am ei wrthwynebiad cryf i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau:

The WLGA is extremely concerned at the level of powers and responsibilities that will be placed in the hands of one individual and believes that this is unprecedented in British constitutional arrangements and therefore a risky proposal. The Police Commissioner model remains untested, uncostered, and without any clearly evidenced business case.

Roedd tystiolaeth Awdurdodau Heddlu Cymru (PAW) i'r Pwyllgor Dethol yn datgan:

PAW recognises that public consultation has identified there is a public appetite for an identifiable individual to be publicly accountable for policing. However, there were clear public concerns around politicising policing and one person having too much power.

PAW recognises that there is room for improvement and we are open to change, but we believe that changes should be focused on ensuring high quality, accountable policing, with the involvement of a wide range of stakeholders in agreeing policing priorities and agree that this is best achieved through governance arrangements which promote a consensual, involving approach with appropriate safeguards.

PAW believes that the appropriate structure to achieve the Government's objectives is that of a body corporate with the Commissioner part of a Police and Crime Board Model, jointly responsible for holding assets, entering into contracts and employing staff. A dispute resolution procedure would ensure that the primacy of the Commissioner is appropriately

¹⁶ [Datganiad Gweinidogol Llafar, Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 12 Hydref 2010.](#)

recognised. A comparison would be the executive decision making models in Local Government, or the private sector.¹⁸

Roedd ACPO Cymru hefyd o'r farn fod y cynigion yn rhoi gormod o rym i un unigolyn. "Proper scrutiny powers for the PCP are needed so as to provide the checks and balances so important to genuine democratic accountability".¹⁹

Roedd Adroddiad Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin ar gynigion y Papur Ymgynghori yn datgan:

Given that there is concern in some quarters that Police Authorities do not currently have sufficient powers, we certainly do not think that Police and Crime Commissioners should have any fewer powers than Police Authorities, or be given new powers beyond those currently enjoyed by Police Authorities. **We recommend that Police and Crime Commissioners be responsible for the budget, staff, estate and other assets in their force area, and that they have the same power to appoint and dismiss senior officers that is currently held by Police Authorities.**²⁰

Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Dethol yn pryderu am uwch swyddogion yr heddlu yn symud yn llyfn o swydd weithredol i swydd Comisiynydd etholedig. Roedd yn argymhell, felly:

there should be no restrictions on who can stand for the post of Police and Crime Commissioner beyond the criteria that normally apply to standing for public office. However, we consider that there should be a cooling-off period of four years—one term for a Police and Crime Commissioner—if a former senior officer of the rank of Assistant Chief Constable or above decides to stand as a Police and Crime Commissioner in the same area in which he or she has served. This is because otherwise a former senior officer could be in the position of scrutinising the effects of decisions he or she had made while still in office.²¹

Fodd bynnag, nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i gynnwys yn y Mesur Seneddol.

4.3. *Trwyddedu*

Roedd Cytundeb Clymblaid Llywodraeth y DU yn cynnwys nifer o ymrwymadau ar gyfer lliniaru effeithiau cymdeithasol alcohol:

- Byddwn yn gwahardd gwerthu alcohol am bris is na chost.

¹⁷ Ibid.

¹⁸ [Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i'r Heddlu: Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Memorandwm o Dystiolaeth gan Awdurdodau Heddlu Cymru, Hydref 2010.](#)

¹⁹ [Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i'r Heddlu: Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Memorandwm o Dystiolaeth gan ACPO Cymru, Hydref 2010.](#)

²⁰ [Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, *Police: Policing and Crime Commissioners*, Ail Adroddiad 2010-2011. 1 Rhagfyr 2010.](#)

²¹ Ibid.

- Byddwn yn trawsnewid y *Ddeddf Trwyddedu* i roi pwerau llawer cryfach i awdurdodau lleol a'r heddlu dynnu trwyddedau oddi ar unrhyw fannau sy'n achosi trafferthion neu, wrthod rhoi trwyddedau iddynt.
- Byddwn yn caniatáu i gynghorau a'r heddlu gau unrhyw siop neu far yn barhaol os canfyddir bod y siop neu'r bar yn mynnu gwerthu alcohol i blant.
- Byddwn yn dyblu'r dirwy uchaf am werthu alcohol i bobl ifanc o dan oed i £20,000.
- Byddwn yn caniatáu i gynghorau lleol godi mwy am drwyddedau hwyrnos er mwyn talu am blismona ychwanegol.²²

Dywedodd David Jones AS, Gweinidog Swyddfa Cymru, y bydd y Mesur Seneddol yn ailunioni'r *Ddeddf Trwyddedu* drwy roi mwy o reolaeth i'r cyhoedd ac asiantaethau lleol dros drwyddedu alcohol. Dywedodd hefyd:

The introduction of 24 hour licensing has made our towns and cities 'no go' areas leaving the police fighting a constant battle against drink fuelled crime and disorder. Our new measures will give the public and local agencies greater control over the licensing decisions that affect their local communities and provide the powers needed to reclaim their cities and towns.²³

Roedd Grŵp Llywodraeth Leol y Gymdeithas Llywodraeth Leol, a oedd hefyd yn siarad ar ran CLILC yn y cyd-destun hwn, yn croesawu newidiadau Llywodraeth y DU i *Ddeddf Trwyddedu 2002*. Ond, dywedodd:

Licensing premises to sell alcohol is only one of several factors that affect how people consume alcohol, and other interventions – such as increasing the cost of alcohol – may be a more effective way of achieving the government's stated policy goals. The LG Group regrets therefore that nothing has been included on the face of the Bill on the below cost price sale of alcohol.²⁴

Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrywmo i gyflwyno cynigion i weithredu'r gwaharddiad ar werthu alcohol am bris is na chost ar unwaith²⁵ drwy ddulliau amgen. Felly bydd y Grŵp Llywodraeth Leol yn chwilio am eglurhad o ran sut y caiff hyn ei weithredu, a sicrwydd na fydd y baich o weithredu a gorfodi gwaharddiad felly yn cael ei roi ar gynghorau.

O ran cynigion y Mesur Seneddol sy'n ymwneud â gwerthu alcohol, dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, Consortiwm Manwerthu Cymru a'r Gymdeithas Fasnachu Gwin a Gwirodydd ar y cyd:

There are already plenty of legislative tools available that can be used to tackle problems associated with alcohol and there have been many additions and alternations to licensing law

²² Llywodraeth y DU, *The Coalition: our programme for Government*, 2010.

²³ Op.cit., *Gweinidog Swyddfa Cymru yn croesawu'r diwygiadau plismona*, 1 Rhagfyr 2010

²⁴ [Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Police Reform and Social Responsibility Bill Briefing, 1 Rhagfyr 2010.](#)

²⁵ [Y Swyddfa Gartref, Responses to consultation: Rebalancing the Licensing Act, 2010.para.30](#)

since the 2003 Act. Rather than further legislation, a focus on proper and targeted enforcement of existing legislative tools may be more successful.²⁶

5. Darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru

Yn ei ddatganiad ar y Mesur Seneddol arfaethedig ar y pryd ar 12 Hydref 2010, dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol y bydd yn ceisio cael trafodaeth bellach gyda Gweinidogion y Swyddfa Gartref am effaith y Mesur Seneddol ar Gymru.²⁷ Y newid mwyaf i Gymru o ran y Papur Gwyn yw paragraff 4 yn Atodlen 6 i'r Mesur Seneddol sydd i'w weld yn Atodiad 1 isod. Mae hwn yn ymdrin ag aelodaeth o'r Panelau Heddlu a Throseddau. Bydd 10 aelod i gael eu penodi o'r awdurdod lleol yn ardal y lluoedd unigol a bydd dau aelod yn cael eu cyfethol gan y panel. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn penodi un "cynrychiolydd etholedig lleol" i bob panel. Y diffiniad yw:

- (a) a person who is a member of the National Assembly of Wales for an Assembly constituency which falls wholly or partly within the police area;
- (b) a person who is a member of the National Assembly of Wales for an Assembly electoral region whose area is the same as, includes part of, or is included in, the police area;
- (c) a person who is a member of a county council or county borough council whose area is the same as, or included in, the police area;
- (d) a person who is the elected mayor of the mayor and cabinet executive (within the meaning of Part 2 of the Local Government Act 2000) of a county council or county borough council whose area is the same as, or included in, the police area.

Felly, gall Gweinidogion Cymru benodi Aelod Cynulliad i banel neu gynghorydd, er bod sylwadau'n awgrymu mai Aelodau Cynulliad sy'n debygol o gael eu penodi.

Yn y ddogfen sy'n crynhoi'r ymatebion a'r camau nesaf, mae'r Swyddfa Gartref yn datgan:

We have agreed that each PCP within Wales will have appointed to it, by Welsh ministers, a member of the National Assembly as a representative of the Welsh Assembly Government. Westminster will play no part in determining the mechanism of the appointment other than to stipulate that the chosen individual must have an elected mandate held within either a local, regional or national elected representative and that their ward, constituency or regional electorate is drawn entirely or in part from within the force area of the PCP to which they shall be appointed. The Bill will not seek to vary ability of a PCC to raise or lower the precept within Wales, but that it will also not vary the WAG's current ability to cap the precept within a force

²⁶ [Cymdeithas Siopau Cyfleustra, Consortiwm Manwerthu Cymru a'r Gymdeithas Fasnachu Gwin a Gwirodydd: Joint Briefing for Commons Second Reading of the Police Reform and Social Responsibility Bill: 13 Rhagfyr 2010.](#)

²⁷ Op.cit.; Datganiad Llafar gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, 12 Hydref 2010.

area. The Home Secretary will retain a power to set a minimum force budget if a PCC intends to set a precept to low that places public safety at risk.²⁸

Mae Nodiadau Esboniadol i'r Mesur Seneddol yn datgan:

Paragraph 4 [in Schedule 6] provides for the membership of a police and crime panel in Wales arrangements in Wales. The arrangements are essentially the same as for police and crime panels in England, save that each panel in Wales will have an additional member appointed by Welsh Ministers from among members of the National Assembly for Wales.

O ran penodi aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i etholaeth yr Aelod fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu a rhaid i'r rhanbarth a gynrhychiolir gynnwys rhan neu holl ardal yr heddlu. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn datgan "the appointment must be approved by the Assembly" **ond nid yw'n ymddangos bod darpariaeth o'r fath yn y Mesur Seneddol ei hun.** Mae paragraff 10 yn darparu ar gyfer penodi cynrychiolwyr etholedig lleol yng Nghymru:

10 (1) The panel arrangements for a police and crime panel in Wales must make provision about the holding of office by the member of the panel who is the local elected representative.

(2) The provision that may be made under this paragraph includes provision about—

- (a) the term of office of the member;
- (b) resignation, and removal, of the member;
- (c) conditions for re-appointment of the member.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad ar wyneb y Mesur Seneddol at gymeradwyaeth gan y Cynulliad.

Er bod llawer o Aelodau Seneddol o Gymru wedi siarad yn Nadl yr Ail Ddarlleniad ar y Mesur Seneddol ar 13 Rhagfyr 2010, ni chyfeiriodd yr un ohonynt at y ddarpariaeth hon.²⁹

Mae'r Mesur Seneddol yn darparu ar gyfer ethol comisiynwyr heddlu a throseddau ar gyfer pob ardal lluoedd yr heddlu ("etholiad cyffredin") i'w gynnal yn 2012 a phob pedair blynedd wedyn. Yng Nghymru, cynhelir yr etholiadau ar yr un diwrnod â'r etholiadau lleol (cymal 50).

Gwaherddir Aelodau'r Cynulliad (a phob aelod etholedig arall) rhag gwasanaethu fel Comisiynwyr Heddlu a Throseddau (cymal 68) ac fel aelodau cyfetholedig o Banelau Heddlu a Throseddau (Atodlen 6, paragraff 7).

²⁸ [Y Swyddfa Gartref, Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people, Summary of Consultation Responses and Next Steps, Rhagfyr 2010.](#)

²⁹ Trafodaethau Tŷ'r Cyffredin, 6 Rhagfyr 2010, col.707

Atodiad 1

Aelodaeth : Cymru

4 (1) Mewn achos o banel un-awdurdod ar gyfer unrhyw ardal lluoedd yr heddlu yng Nghymru, dylai'r panel heddlu a throsteddau gynnwys—

(a) deg aelod a benodir o blith aelodau'r awdurdod sy'n cymryd rhan, gan yr awdurdod hwnnw,

(b) dau aelod a gyfetholir gan y panel, ac

(c) un aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol.

(2) Mewn achos o gyd-banel ar gyfer unrhyw ardal lluoedd yr heddlu yng Nghymru, gyda deg awdurdod yn cymryd rhan, dylai'r panel heddlu a throsteddau gynnwys—

(a) deg aelod, a phob un wedi'i benodi gan wahanol awdurdod sy'n cymryd rhan o blith aelodau'r awdurdod hwnnw sy'n cymryd rhan,

(b) dau aelod a gyfetholir gan y panel, ac

(c) un aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol.

(3) Mewn achos o gyd-banel ar gyfer unrhyw ardal lluoedd yr heddlu yng Nghymru sydd â naw neu lai o awdurdodau yn cymryd rhan, dylai'r panel heddlu a throsteddau gynnwys—

(a) deg aelod a benodir gan yr awdurdodau sy'n cymryd rhan o blith aelodau'r awdurdodau sy'n cymryd rhan,

(b) dau aelod a gyfetholir gan y panel, ac

(c) un aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol.

(4) Mewn achos o gyd-banel ar gyfer unrhyw ardal lluoedd yr heddlu yng Nghymru sydd ag 11 neu fwy o awdurdodau yn cymryd rhan, dylai'r panel heddlu a throsteddau gynnwys—

(a) y nifer perthnasol o aelodau, a phob un wedi'i benodi gan wahanol awdurdodau sy'n cymryd rhan o blith aelodau'r awdurdodau sy'n cymryd rhan,

(b) dau aelod a gyfetholir gan y panel, ac

(c) un aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol.

(5) Yn is-baragraff (4), mae "nifer perthnasol" (relevant number), mewn cysylltiad â chyd-banel, yn golygu rhif sy'n gyfaint â nifer yr awdurdodau sy'n cymryd rhan.

(6) Ni chaiff y comisiynydd heddlu a throseddau ar gyfer un o ardaloedd lluoedd yr heddlu fod yn aelod o banel heddlu a throseddau ar gyfer yr ardal honno.

(7) Yn yr Atodlen hon, mae "cynrychiolydd etholedig lleol" (local elected representative), mewn cysylltiad â'r panel heddlu a throseddau ar gyfer ardal lluoedd yr heddlu yn golygu unrhyw rai o'r canlynol—

(a) rhywun sy'n aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros etholaeth y Cynulliad sy'n dod yn rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardal lluoedd yr heddlu;

(b) rhywun sy'n aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros ranbarth etholiadol lle mae'r ardal yr un fath, yn cynnwys rhan o, neu sydd wedi'i chynnwys o fewn ardal lluoedd yr heddlu;

(c) rhywun sy'n aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, lle mae'r ardal yr un fath, neu wedi'i chynnwys o fewn ardal lluoedd yr heddlu;

(d) rhywun sy'n faer etholedig ar weithrediaeth maer a chabinet (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol lle mae'r ardal yr un fath, neu wedi'i chynnwys o fewn ardal lluoedd yr heddlu.